

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

18 Ebrill 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

### **Polisi masnach ar ôl Brexit – goblygiadau i Gymru**

Adroddwyd yn ddiweddar yn y wasg yn Awstralia, y bydd Llywodraeth y DU yn dechrau trafodaethau masnach â Llywodraeth Awstralia yr wythnos hon. Yn benodol, adroddir y bydd masnach mewn nwyddau amaethyddol yn amlwg yn y trafodaethau am unrhyw fargen masnach rydd yn y dyfodol.

Fel Pwyllgor, rydym wedi tynnu sylw yn flaenorol at bwysigrwydd sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu'n ddigonol mewn unrhyw drafodaethau ar fargeinion masnach ryngwladol yn y dyfodol. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar gyda chi ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach, pwysleisiwyd gennych bwysigrwydd ymgynghori rhwng y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar fater masnach ryngwladol. Pwysleisir y sefyllfa hon hefyd ym mhapur polisi masnach Llywodraeth Cymru sy'n galw am greu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol.

Yng ngoleuni'r newyddion y bydd swyddogion Llywodraeth y DU yn dechrau trafodaethau masnach yn fuan yn Canberra, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth i ni ar:


- a yw'r Adran Masnach Ryngwladol wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru (naill ai ar lefel swyddogion neu ar lefel gweinidogion) cyn cychwyn sgysiau masnach yn Awstralia;



- a fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r ddirprwyaeth a fydd yn cael ei hanfon i Awstralia fel rhan o dîm negodi'r DU;
- a wnaethoch chi godi'r mater o berthynas fasnachu'r DU yn y dyfodol â chymheiriaid yn ystod eich ymweliad diweddar ag Awstralia a sut mae datblygiadau yn cael eu gweld yno;
- pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod buddiannau Cymru, gan gynnwys rhai sector amaethyddiaeth Cymru, yn cael eu diogelu fel rhan o unrhyw drafodaethau ar fargeinion masnach yn y dyfodol.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r uchod cyn gynted ag y bo'n gyfleus a heb fod yn hwyrach na 30 Mai 2018. Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir,



David Rees AM, Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee  
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

